CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 21ain o Ionawr 2026 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, John P Roberts, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Catrin Jones Johnson, Idris Jones, Lynne Mcrickett a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Arfon Hughes a Cyng Rhys Davies.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar y 10fed o Ragfyr 2025 ar gynnig Cyng. Sion Alun Roberts a'i eilio gan Cyng Idris Jones.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Roedd yr ymateb yn nodi fod arhosfanau bws yn gyfrifoldeb i'r Cynghorau Cymuned, ac addawodd Cyng Idris Jones ofalu am un Dinas, Lynne Mcickett ofalu am un Mallwyd, a John P Jones un Minllyn. Diolchwyd yn fawr iddynt.
**Maes Parcio Neuadd Abernagell** – nid oedd Cyngor Gwynedd am wneud dim ymhellach a gwelwyd fod rhaid cael lluniau i ddangos y broblem.
**Maes Parcio Plas, Dinas** – darllenwyd yr ymateb, ond gwelwyd fod rhaid cael arwyddion, gan mai maes Parcio Cyngor Gwynedd ydyw.
**Biniau halen** – roedd cais gerbron am fin ar riw Dugoed Isaf, ond nodwyd na allai y Cyngor Cymuned gytuno i hyn oherwydd y gost, ac y byddai yn gosod cynsail i geisiadau eraill a oedd wedi eu gwrthod yn y gorffennol.

b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** nid oedd unrhyw datblygiadau i'w hadrodd.

**c) Pwyllgor yr Hen Fynwent** – darllenwyd ymateb Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd i Cyng John P Roberts ar y 12fed o Ionawr. Roedd angen cadarnhad a oedd unrhyw un yn fodlon bod yn ymddiriedolwr, ac roedd rhaid i'r Cynghorwyr ymholi a chael atebion erbyn y tro nesaf.

d) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** - Roedd y Clerc wedi trafod eto efo Cyngor Gwynedd, a phenderfynwyd gadael hyn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol nesaf.

e) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nodwyd nad oedd gohebiaeth pellach gan Stuart England. Tra yn trafod hyn, nodwyd ychydig ddifrod i'r tir gerllaw, a chynigiodd Cyng Catrin Johnson roi tybiau concrit yno, a diolchwyd yn fawr iawn am hyn.

f) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - ystyriwyd y diweddaraf, ac adroddwyd y cefndir. Cadarnhwyd safleodd y meinciau a'r byrddau picnic, gan gynnwys un i'r Ysgol Feithrin. Diolchwyd i'r Cyng Wyn Lewis am ymdrin a'r potiau/plannu y blodau - roedd £121.47 i'w hawlio. Yng nghyswllt enwau creigiau Cywarch, a'u rhoi mewn lectern/hysbysfwrdd, adroddodd y Clerc yn llawn am y gohebiaeth, ac addewid Cyng Arfon Hughes i arwain/gweithredu ar hyn. Darllenoddd y Clerc ei e- bost o'r 16eg Rhagfyr 2025 yn nodi fod y dyddiad cau wedi ymestyn i ddiwedd Ionawr, ond bod rhaid i'r cyfan fod wedi ei orffen erbyn hynny. Ni chafodd y Clerc unrhyw wybodaeth wedyn. Gydag ymddiheuriad Arfon i gyfarfod y Cyngor 21ain

Ionawr, roedd wedi gwneud cais am ddiweddaraid. Darllennodd yn llawn ohebiaeth e-bost gan Arfon yn gynharach y pnawn (21.01.26) oedd yn dweud fod y gwaith cychwynol heb ei gwbwlhau.

Mynegwyd siom am y sefyllfa, ac eglurwyd fod cost y dylunio £180, a'r lectern/ panel gwybodaeth £664, wedi eu talu gan y Cyngor Cymued yn dilyn cymeradwyaeth yn cyfarfod diwethaf ( a chost gosod y lectern gan Rhodri Wigley hefyd wedi ei gymeradwyo) Roedd rhaid cwbwlhau y gwaith gyda thystiolaeth cyn fod posib hawlio y grant o Gyngor Gwynedd, a byddai methu gwneud hyn yn golygu defnyddio cronfa'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd fod rhaid gofyn i Arfon ddanfon y gwaith i rywun arall mewn ymgais i geisio cwbwlhau y gwaith. Cynigiodd Cyng Catrin Johnson wneud hyn, ac addawodd Cyng John P Roberts fynd i siarad ag ef mor fuan a phosib. Penderfynwyd sefydlu Is-Bwyllgor i ymdrin a hyn, yn cynnwys y Cadeirydd John P Jones, John P Roberts, Catrin Johnson a Wyn Lewis.

g) **Cwynion am sefyllfa carafannau Min y Goedwig, Aberangell –** gwelwyd na ellir gwneud dim mwy am hyn.

h) **Gohebiaeth Swyddfa Bost**, Dinas Mawddwy – darllenwyd ymateb pellach oedd yn gwrthod cael fan swyddfa bost yn yr ardal yn achlysurol.

i) **Sedd wag ar Gyngor Mawddwy** – penderfynwyd ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Idris Jones i beidio llenwi y sedd, gan gofio y byddai etholiad ymhen ychydig dros flwyddyn.

j) **Coed ger 1 Bryn Dyfi, Dinas Mawddwy –** roedd y cyfan yn nwylo Adran Pridiannau Tir Lleol Cyngor Gwynedd, a darllenwyd yr ymateb diweddaraf.

5. **Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

**6.Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon,** (21.01.26), sef Cyfri Cyfredol £5873.63, Cyfri Claddedigaeth £2073.79 Cyfri Cadw £798.89.

Nodwyd fod **cyfrifon 2024-25** wedi eu dychwelyd gan yr Archwilydd Allanol yn cadarnhau adroddiad clir heb unrhyw ymholiadau, a diolchwyd i'r Clerc am ei waith. Roedd hysbyseb ar y wefan ac ar hysbysfwrdd y Neuadd yn unol â'r rheolau.

b) **Anfonebau i'w talu – cytunwyd ar gynnig Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng John P Roberts, i dalu'r canlynol;**

- John A Owen – agor bedd ym mynwent Dinas 16/12/25. (Nodwyd fod £971 wedi ei dalu mewn i'r cyfrif gan yr Ymgymerwr).

c) **Ceisiadau am arian – penderfynwyd fel a ganlyn;**

Nodwyd gais gan **Cylch Meithrin Dolybont**, a gwelwyd fod rhaid ei drafod y tro nesaf, ac yn y cyfamser gofyn am fantolen.

Roedd cais gan Marie Curie, a phenderfynwyd peidio cyfrannu.

**7.Gohebiaeth.**

**a)** Nodwyd sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru – a oedd wedi eu cylchredeg.

**b)** Nodwyd wybodaeth am Grantiau 'Perthyn' ar gyfer grwpiau cymunedol 2026 – oedd wedi ei ddanfon allan.

c) Nodwyd digwyddiad i g*yn filwyr* gan Liz Saville Roberts AS yn Caernarfon 7.02.26

d) Nodwyd fod Gareth Wyn Davies wedi danfon atom i ddweud ei fod wedi torri gwrych ym mynwent Llanymawddwy (sydd o fewn pris y torri gwair) a diolchwyd yn fawr iawn iddo.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Roedd pryder am diffyg gritio rhai ffyrdd bach ar adegau o eira a rhew yn ddiweddar, a phryder am bobl bregus. Soniwyd yn arbennig am y Cytir.

b) Roedd cais eto am fin halen ar riw Pencae, a byddai rhaid pasio hyn i Gyngor Gwynedd. Nodwyd angen i wneud yn siwr fod biniau halen yn llawn yn yr ardal, a gofynnwyd i bawb gysylltu efo'r Clerc o fewn y 10 diwrnod nesaf.

c) Roedd pryder am fieri /tyfiant ar gomin Dolybont o dan y Llew Coch, ond gwelwyd y dylid ystyried hyn fel ardal i'w gadael i fioamrywiaeth.

d) Roedd un lamp golau stryd ymlaen ymlaen drwy'r adeg ger y fynwent newydd yn Dinas Mawddwy.

e) Roedd ceir wedi eu parcio yn barhaol (heb MOT arnynt) yn y Plas yn Dinas, sydd ar dir yn perthyn i Gyngor Gwynedd.

f) Roedd pryder am sbwriel mewn nifer o gilfannau yn ardal Dinas, yn arbennig ar yr A470 rhwng safle dwy garej, ac ochr Cerist o'r pentref , a Mallwyd.

g) Diolchwyd y bawb ddaeth i gynorthwyo i dynnu lawr y goeden Nadolig o flaen y Neuadd. Addawodd Cyng Wyn Lewis gael golwg ar un set o oleuadau

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 4ydd Mawrth 2026, 7.30 y.h.**